# heddwch

haf hwyr
2007
rhif 44


**cnd cymru** **yr ymgyrch dros ddiarfogi niwclear**

# Ydyn ni bron â bod yno eto?

**Mae hanner canrif bellach ers i mi ymuno ag CND – ymgyrch 'Ban the Bomb! - wedi i'w Gadeirydd-sylfaenydd, y Canon John Collins o Eglwys Gadeiriol St. Paul's, alw am ymgyrch fer ac egnïol – 'blwyddyn, ar y mwyaf' meddai – i wneud Prydain yn ddi-niwclear. Yn yr holl flynyddoedd ers hynny, chlywais i erioed neb yn hawlio fod arfau niwclear yn beth da neu fod yr ymlediad niwclear a gychwynnwyd gan Brydain wedi gwneud y byd yn lle mwy diogel. Yr esgus beunyddiol, er nad yw bob amser yn cael ei leisio, yw na allwch chi ddad-ddyfeisio arfau niwclear na llunio cytundeb diarfogi niwclear a fyddai'n ei gwneud hi'n amhosibl twyllo.**

Er bod yr un dadleuon wedi cael eu defnyddio ynglŷn ag arfau cemegol a biolegol (ACBau) hefyd, mae'r arfau hyn eisoed yn destun cytundebau sydd wedi gwir gyfyngu ar eu defnydd. Does dim rheswm dros dybio na fyddai cytundeb arfau niwclear mor – neu hyd yn oed yn fwy – effeithiol na'r cytundebau ACBau.
Y broblem hyd yma yw fod y negydu wedi bod ynglŷn â rheolaeth ar arfau – nid diarfogi. Mae rheolaeth ar arfau yn cyfreithloni meddiant ar rai (neu lawer o) arfau ac mae'n fwy anodd ei fonitro na diarfogi llwyr. Dyna pam mae'r ffocws yn awr ar Gytundeb Arfau Niwclear (CAN) a fyddai'n gallu rhoi i bob cenedl y sicrwydd angenrheidiol nad yw'r bygythiad niwclear *yn bodoli mwyach*.
Er mai prin yw'r cyfeiriadau at hyn yn y cyfryngau Prydeinig, mae'r CAN eisoes yn cael ei gefnogi yn y CU gan fwyafrif o'r gwledydd, yn cynnwys tair gwlad sydd ag arfau niwclear. Y tu allan i Brydain, mae pobl yn deall nad yw CAN yn bygwth neb – tra bod y dewis amgen, sef ymlediad niwclear pellach, yn sicr yn fygythiad.
Ysywaeth, dydy 'cefnogwch y Cytundeb Arfau Niwclear' ddim mor fachog â 'Ban the Bomb!' a go brin y llwyddir i fynd â'r maen i'r wal mewn 'blwyddyn, ar y mwyaf'. Ond y mae'n brif nod ymgyrch ddiarfogi niwclear fyd-eang ar hyn o bryd, un y mae CND Cymru yn chwarae ei ran fechan ei hun ynddo.

**John Cox Is-gadeirydd CND Cymru**



**heddweithredu: Mae gan CND ddeiseb newydd, 'Na i Olynydd i Trident, Ie i Gytundeb Arfau Niwclear'. Da chi, anfonwch gopi at eich AC (Y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd CF99 1NA) a'ch AS (Tw'r Cyffredin, Westminster, Llundain SW1 2AA) gyda llythyr yn dweud pam yr hoffech iddyn nhw arwyddo. Cysyllter ag CND Cymru neu'r Cynulliad** www.assembly.wales.gov.uk **t: 0845 0105500 os oes arnoch angen enw'ch AC. Os oes modd, a fyddech cystal ag anfon copi o unrhyw ohebiaeth a dderbynir at CND Cymru. Defnyddiwch gopi arall i gael ffrindiau, aelodau'r teulu ac eraill i arwyddo. Mae mwy o gopïau ar gael oddi wrth CND Cymru (gweler cysylltiadau, tud.6).**

# Grym gwrthdystio

**O'r cychwyn cyntaf, mae llywodraeth newydd Plaid Genedlaethol yr Alban (SNP) wedi ei gwneud hi'n glir iawn fod pethau'n mynd i fod yn wahanol yn yr Alban. Ac yna awr, mae Senedd yr Alban wedi pleidleisio i wrthod cynllun y llywodraeth Brydeinig i sicrhau olynydd i system arfau niwclear Trident o fwyafrif anferth, 71 pleidlais i 16, gyda 39 yn atal eu pleidlais.**

Mae'r cynnig 'yn llongyfarch y mwyafrif o ASau yr Alban am bleidleisio ar y 14eg o Fawrth 2007 i wrthod olynydd i Trident . . . ac yn galw ar y Llywodraeth Brydeinig i beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig yn y Papur Gwyn.'
Er nad yw penderfyniadau ar y mater hwn wedi eu datganoli ond yn cael eu gwneud yn San Steffan, mae'r bleidlais yn dangos yn amlwg y mwyafrif gwrth-Trident sydd yn y senedd newydd, a fydd yn caniatáu pleidleisiau pellach i weithredu sancsiynau yn erbyn y system, sydd wedi ei lleoli yng Nghanolfan y Llynges yn Faslane, 25 milltir i'r gogledd-orllewin o Glasgow. Roedd ymgyrchoedd etholiadol yr SNP a'r Blaid Werdd yn addo gweithredu, gan ddefnyddio pwerau diogelu'r amgylchedd y Senedd, naill ai i wahardd neu i drethu cludo ergydion niwclear drwy'r Alban, sy'n hanfodol er mwyn cynnal y system.
Ym mis Ionawr, roeddwn yn un o gannoedd a gafodd eu restio wrth glwydi canolfan niwclear Faslane pan gymerais ran yng ngwarchae parhaus Faslane 365. Mae llawer o'r rhai a restiwyd yn y gwarchae di-drais ers mis Hydref wedi bod yn Gymry. Mae barn pobl Cymru yn adlewyrchu barn yr Alban – mae'r mwyafrif yng Nghymru yn gwrthwynebu Trident.
Mae'n dadleuon a grym gwrthdystio yn ei gwneud hi'n anos i'r llywodraeth Brydeinig i anwybyddu barn y bobl.

**Jill Evans Cadeirydd CND Cymru**

**Cytundeb Arfau Niwclear**

**Rhoddodd Cytundeb Arfau Niwclear, a ddraftiwyd ym 1997 gan gonsortiwm o gyfreithwyr, gwyddonwyr, meddygon, cyn-ddiplomyddion ac arbenigwyr ac ymgyrchwyr dros ddiarfogi, gig cadarn ar yr hyn a fuasai'n ddim ond sgerbwd academaidd a rhithiol am flynyddoedd lawer. Archwiliwyd y testun yn frwdfrydig gan gyrff anlywodraethol a diplomyddion, ac fe'i gosodwyd ger bron y Cenhedloedd Unedig fel dogfen drafod gan Costa Rica.**

**Mae dibenion y model o Gytundeb Arfau Niwclear yn cynnwys dangos ymarferoldeb dull fframwaith o fynd at i ddileu arfau niwclear, ac annog llywodraethau i ddechrau negydu ynglwn â diarfogi niwclear. Diben arall yw addysgu'r cyhoedd a'u cael i gyfranogi yn y daith tuag at ddiarfogi niwclear. Y broses o lunio a thrafod cytundeb arfau niwclear**

**Gall hyn helpu drwy:**

**1. nodi polisïau sy'n anghyson â'r nod o ddiarfogi niwclear;**
**2. goresgyn rhai o'r rhwystrau sy'n gwneud i ddiarfogi niwclear ymddangos yn iwtopaidd;**
**3. paratoi cymdeithasau ar gyfer y dydd pan fydd ewyllys wleidyddol i ddechrau negydu yn ymddangos.**

# Gallwn ddileu arfau niwclear

**Mae meddygon a gweithwyr meddygol proffesiynol mewn 60 o wledydd wedi lansio Ymgyrch Ryngwladol newydd i Ddileu Arfau Niwclear (ICAN). Mae ICAN wedi ei batrymu ar ymgyrchoedd cymdeithas sifil llwyddiannus sydd wedi gwneud ffrwydron tir ac arfau cemegol a biolegol yn anghyfreithlon.**

Yn ystod arolwg 2000 o'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY), gwnaeth y pum gwlad a feddai ar arfau niwclear yn wreiddiol 'ymrwymiad diamwys' i 'lwyr ddileu eu harfogaethau niwclear, gan arwain at ddiarfogi niwclear'. Er gwaethaf hynny, ym mis Mawrth, pleidleisiodd y Senedd Brydeinig i sicrhau olynydd i system arfau niwclear longau-tanfor Trident, ac yn 2006 cyhoeddodd y llywodraeth ei bwriad i wario ychydig dros £1bn yn y tair blynedd nesaf ar ailwampio cyfleusterau allweddol yn y ffatri arfau niwclear yn Aldermaston.
Heddiw, mae 27,000 o arfau niwclear yn y byd, ym meddiant naw o wledydd, sydd oll wedi datgan parodrwydd i'w defnyddio. Does dim diben cyfreithlon i arfau niwclear; maent nid yn unig yn anghyfreithlon (mae'n amhosibl osgoi niwed i sifiliaid), maent hefyd yn hil-laddol ac yn gwbl anfoesol. Mae arfau niwclear yn ddi-rym yn erbyn newid hinsawdd, tlodi, newyn, gorboblogi, grwpiau arfog di-wladwriaeth neu frawychwyr, ac maent yn ddi-werth yn erbyn clefydau pandemig fel Aids neu ffliw adar. Byddai pawb a fyddai'n goroesi yng nghyffiniau ymosodiad niwclear yn wynebu afiechyd hir-dymor neu farwolaeth.
Rhaid rhoi'r gorau i'r honiad rhagrithiol fod arfau niwclear yn offeryn gwerthfawr yn nwylo rhai gwledydd, ond yn fygythiad na ellid mo'i oddef yn nwylo eraill.
Dylai'r llywodraeth Brydeinig gefnogi cytundeb arfau niwclear fel rhan o broses y Cytundeb Atal Ymlediad, ond nid yw wedi arddangos unrhyw frwdfrydedd o blaid hynny. Bydd CND Cymru yn gweithio gydag ICAN ac eraill i atal olynydd i Trident tra'n adeiladu cefnogaeth y cyhoedd a galw am Gytundeb Arfau Niwclear. Bydd hyn yn cynnal breichiau'r rhai a fydd yn agor y negydu ynglŵn â Chytundeb Arfau Niwclear yng Nghynhadledd Adolygu'r CAY yn 2010.

**heddweithredu: Fel y dywed ICAN: 'Gallwn sicrhau byd yn rhydd o arfau niwclear. Gallwch ddysgu, cyfranogi a phwyso ar eich llywodraeth i symud. Gallant negydu Cytundeb Arfau Niwclear. Gallaf ddychmygu dyfodol di-niwclear.'**
**Gweler www.icanw.org i ymuno, gwylio'r fideo, arwyddo addewid, cael gwybodaeth neu lawrlwytho nifer o bethau da.**
**Da chi, copïwch, dosbarthwch a hyrwyddwch neges ICAN.**

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch, chyfiawnder a diarfogi rhyngwladol, a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw a'r amgylchedd**

# Neges Hiroshima



Hiroshima Peace Museum

**Ym mis Ebrill 2006, ar wyliau yn Japan, ymwelodd Malcolm, fy ngwr, a minnau â Hiroshima. Ar ddiwrnod glawog, niwlog, dyma ni'n cefnu ar y ddinas fodern, brysur, lewyrchus a chwilio am y Parc Coffa Heddwch sy'n coffáu'r ffaith i'r ddinas yma fod yn darged i'r bom atomig Americanaidd cyntaf ar y 6ed o Awst 1945 am 8.15am. Mae sgerbwd olion Cromen y Bom-A (y gyn-Neuadd Hyrwyddo Diwydiant) yn atgoffa ymwelwyr mai hwn, oherwydd ei siâp, oedd yr unig adeilad a wrthsafodd danchwa'r bom yn ffrwydro 600metr uwchben.**

Trowyd popeth arall o fewn radiws o ddau gilometr yn lludw. Aethom heibio i lawer o gofebau yn y parc, yn cynnwys Cofeb Bom-A Korea i rai a gafodd eu gorfodi i weithio fel caethweision yn ffatrioedd Japan cyn cael eu lladd gan y bom. Mae enwau pawb y gwyddys iddyn nhw farw yma wedi eu nodi ar y Senotaff, ond hyd yn oed heddiw mae enwau newydd yn cael eu hychwanegu wrth i weddillion gael eu darganfod a'u dychwelyd i'w teuluoedd. Meddai'r geiriau ar y Senotaff: 'Cysgwch mewn hedd, ni wneir y fath gamgymeriad eto'.
Yn wir, chaiff y fflam ar y gofeb mo'i diffodd nes y dinistrir yr arf niwclear olaf ar wyneb y ddaear.

Mae'r pwyslais ar unigolion a gafodd eu dal yn yr arswyd yn parhau yn yr Amgueddfa Goffa Heddwch. Dewisom, ar hap, drwy gyfrwng technoleg fodern, i ddysgu am fywyd, Nishi Teruku – dioddefwr 19 oed. Derbyniwyd y wybodaeth yn yr amgueddfa gan yr ymwelwyr mewn distawrwydd.

Er gwaethaf y rhwystr iaith, siaradodd gwraig o Japan ni. Fel llawer o blant, roedd hi wedi cael ei hanfon i'r wlad i osgoi'r bomio yn y dinasoedd. Dyna sut roedd hi wedi byw. Roedd yn ymweld â'r amgueddfa i gofio'i chwaer fawr a oedd wedi aros yn y ddinas ac wedi marw yn y ffrwydrad atomig. Diolchodd i ni am ddod mor bell.

Mae'r eitemau yn yr amgueddfa yn gofiadwy – arteffactau fel y 'cloc a stopiodd', neu botel gwrw gam. Mae'r hanes cefndir am y cyfnod cyn y bom yn ddiddorol hefyd – ymdrinir ag ymosodgarwch a chreulondeb Japan tuag at wledydd eraill, yn ogystal â'r cytundeb rhwng UDA a Phrydain, ar y 18fed Medi 1944, y gellid defnyddio'r bom atomig yn Japan. Dywedwyd wrth bobl Japan gan eu llywodraeth 'nad oedd y bom newydd yn ddigon pwerus i'w ofni'. Hyd yn oed wrth i'r bom gael ei ollwng, roedd Japan yn negydu gyda Rwsia am 'ddiwedd mwy ffafriol' i'r rhyfel.
Ceir atgofion erchyll: mam yn sgrechian enw ei phlentyn coll, un arall yn fud ger bron ei phlentyn marw, achubwyr, wedi eu llethu gan anferthedd eu tasg, yn gadael pobl wedi eu hanafu mewn cerbydau agored yn yr haul tanbaid. Yn ddiweddarach, byddai rhai o'r achubwyr yn troi'n ddioddefwyr o ganlyniad i ymbelydredd. Yn wir, mae awgrym na chafodd rhai eu trin am effeithiau ymbelydredd, a'r cwbl a wnaed oedd arsylwi arnyn nhw 'fel moch gini mewn arbrawf'.
Braint arbennig oedd ymweld â'r lle ar achlysur arddangosfa dros-dro arbennig: 'Hiroshima wedi'r Bomio Atomig – detholiad o ffotograffau gan Hajime Miyatake ac Eiichi Matsumoto'. Aeth Miyatake i mewn i Hiroshima ar y 9fed o Awst 1945 a thynnu cymaint o luniau ag y gallai oddef eu cymryd ar y 10fed a'r 11eg. Mae 121 o'r rhain ar ôl. Ymwelodd Matsumoto â Hiroshima ar y 18fed o Fedi (mae 157 o ffotograffau ar ôl) ac aeth i Nagasaki hefyd.
Pan feddiannodd Lluoedd y Cyngreiriaid Japan ym mis Medi 1945, dinistriodd yr awdurdodau lawer o ddogfennau damniol y gellir fod wedi eu defnyddio fel tystiolaeth mewn achosion troseddau rhyfel. Roedd gan y Cynghreiriaid hwythau eu rhesymau dros atal pobl Japan rhag darganfod gwir arswyd yr hyn oedd wedi digwydd. Gorfodwyd y ffotograffwyr i ildio eu printiadau a dywedwyd wrthynt am losgi eu ffilm. Ond, yn lle hynny, yn ystod y chwe blynedd o feddiant, fe guddion nhw'u ffilmiau. Wedi'r meddiant, cyhoeddodd eu cyflogydd, y papur newydd Asaki Shimbun, rifyn arbennig ar y bomio atomig. Roedd dadlennu difrod y bom-A am y tro cyntaf yn ysgytwad dwfn i ddarllenwyr yn Japan. Gwerthodd y rhifyn allan ar unwaith, a chynhyrchwyd pedwar printiad arall, cyfanswm o 700,000 o gylchrediad – nifer anferthol yn y cyfnod hwnnw. Derbyniodd yr Amgueddfa y ffotograffau a oedd wedi goroesi ym mis Awst 2005 ac yn awr gall y byd weld rhai ohonyn nhw ar y We, gyda'r dewis o destun yn y Saesneg (http://www.pcf.citv.hiroshima.ip/).

Dro ar ôl tro, cawsom ein hatgoffa o bryderon cyfoes. Er enghraifft, wrth i'n hawl i brotestio gael ei fygwth yn ein gwlad ni, mae'n arwyddocaol fod cynulliadau cyhoeddus wedi cael eu gwahardd yn Japan yn ystod Rhyfel Korea 1950-53, yn cynnwys gwyl heddwch y bwriedid ei chynnal ym 1950.

Drachefn a thrachefn, mae'r neges yn mynd allan at y byd heddiw, fel yr apêl rymus am fyd di-niwclear a amlygir mewn 590 o lythyron a anfonwyd gan feiri Hiroshima at arweinwyr y byd bob tro y bydd prawf ar ddyfais niwclear. Roedd un, yn dwyn y dyddiad 24ain Chwefror 2006, at Mr. Blair: "rydym yn protestio'n gryf yn erbyn y DU ac UDA a'i profion niwclear is-gritigol".
Wrth i ni fod yn dyst i ragrith beirniadu Iran am ei huchelgais niwclear tra'n sôn am adnewyddu Trident, rhaid i ni bwyso ar ein gwleidyddion i chwilio am atebion amgen i wrthdaro na defnyddio arfau dinistr torfol fel y rhai a achosodd y fath niwed i Hiroshima a Nagasaki.

**Shirley Tunley**

## newyddion o'r deml

### Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

Ar 10 Rhagfyr 1948, fe fabwysiadodd a datganodd Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Mae CCU Cymru wedi cyhoeddi fersiwn dwyieithog o'r Datganiad ers sawl blwyddyn, ac mae argraffiad newydd bellach ar gael sydd yn cynnwys rhagair gan Ysgrifennydd Cyffredinol newydd y Cenhedloedd Unedig, Ban Ki-moon. I archebu eich copi (25c., gan gynnwys tâl postio) cysylltwch â'r Ganolfan os gwelwch yn dda, neu ewch i dudalen CCU Cymru o'r wefan.
"Mae gorchwyl hawliau dynol wrth wraidd cenhadaeth y Cenhedloedd Unedig. Mae'n sylfaen gobeithion miliynau o bobl am ryddid, diogelwch a llewyrch. Y mae'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yr un mor berthnasol heddiw ac yr oedd pan fabwysiadwyd ef gyntaf. Gobeithiaf y bydd yn dod yn rhan o'ch bywyd chi."
O'r rhagair i'r Datganiad Ban Ki-moon, Ysgrifennydd Cyffredinol y CU

### Darlith Goffa Gyntaf Henry Richard


Ym mis Mawrth, fe draddododd yr hanesydd Cymreig enwog, Yr Athro John Gwynfor Jones, Ddarlith Goffa gyntaf Henry Richard Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig Cymru. Pwnc y ddarlith oedd bywyd a gwaith y Parch. Henry Richard AS ei hun, g wr a adnabuwyd fel yr 'Apostl Heddwch'. Roedd yn gefnogwr brwd o gyflafareddiad rhyngwladol, a bu'n Ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch am fwy na deng mlynedd ar hugain (1848-84). Roedd hefyd yn weinidog yr Annibynwyr, yn Aelod Seneddol ym Merthyr Tudful (1868-88), ac yn ymgyrchydd tanbaid yn erbyn caethwasiaeth. I ddarllen darlith yr Athro Jones yn llawn, ewch i'r dudalen 'Beth Sy'n Newydd' ar y gwefan WCIA. Bydd y Ddarlith Goffa yn canolbwyntio ar themâu heddychlon cyfoes yn y blynyddoedd i ddod.

**Cysyllt: Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd C10 3AP t: 029 2022 8549 e: canofan@wcia.org.uk www.wcia.org.uk**



# Pererindod Epynt

**Mewn gweithred o edifeirwch am y defnydd a wnaed o dir Cymru ar gyfer hyfforddi milwrol cyn rhyfel y Malvinas/Falklands, ymgasglodd deugain o bobl ar Fynydd Epynt ar y 23ain o Fehefin. Trefnwyd gwasanaeth Cristnogol gan Gymdeithas y Cymod ac fe'i harweiniwyd gan y Parch. Guto Prys ap Gwynfor yn adfeilion Capel Babell. Canodd Tecwyn Ifan gân ddychanol yn ffarwelio â Tony Blair.**




Dywedodd Guto Prys ap Gwynfor fod 'pob rhyfel yn dechrau gyda chelwyddau, fel a ddigwyddodd cyn rhyfel y Malvinas/Falklands a'r rhyfel anghyfreithlon yn erbyn Irac.' Bu Guto Prys ap Gwynfor yn gweithio fel gwirfoddolwr VSO ar yr ynysoedd cyn y rhyfel. Eglurodd fod pobl leol eisiau ymadael am fywyd gwell yng Nghanada neu Awstralia. Fodd bynnag, ni allent fynd am eu bod yn gweithio am gyflogau isel i gwmnïau Prydeinig. Roedd y llywodraeth Brydeinig am i'r trigolion aros yno er mwy iddi allu dal i hawlio'r ynysoedd sydd â chyflenwadau o olew a mwynau gerllaw.
Cofiai rhai o'r bobl leol a gymerodd ran ym mhererindod Mynydd Epynt yr adeg pan gollasant eu cartrefi i'r Fyddin Brydeinig ym 1941. Cyfeirient at safleoedd eu cartrefi, bob un yn wag yn awr, yn adfeilion, neu'n cael eu defnyddio gan y fyddin i ymarfer lladd a dinistrio.

Mae dinistr hanes a diwylliant yr ardal hon, a oedd gynt yn Gymraeg ei hiaith, yn parhau. Mae'r fyddin, sy'n cyfeirio at yr ardal fel 'SENTA 54', yn defnyddio rhifau yn lle enwau gwreiddiol y ffermydd. Ymwelodd y pererinion â'r pentref dwyrain-Ewropeaidd ei ymddangosiad a gafodd ei adeiladu gan y fyddin ym 1990 i ddysgu i filwyr sut i ymladd â phobl mewn pentrefi. Saif ffug adeilad eglwysig a mynwent yng nghanol grwp o dai anferth, gwag.

Mae'r defnydd blynyddol a wneir o'r cyfleusterau yn SENTA yn awr yn 370,000 o ddyddiau hyfforddi person dros 350 o ddyddiau'r flwyddyn. Mae'r ardal yn cael ei defnyddio gan aelodau o'r lluoedd arfog Prydeinig dan hyfforddiant, aelodau o luoedd arfog tramor, a chwmnïau preifat fel cwmnïau diogelwch.

**www.cymdeithasycymod.org**




Faslane Gorfennaf 2007

## Ieuenctid Sir Benfro'n gweithredu dros well dyfodol

**Does dim byd gwleidyddol iawn yn y diwylliant ieuenctid cyfoes. Aeth 'cenhedlaeth cariad' i'r gwellt gyda dyfodiad 'anarchiaeth' a gwnaeth bandiau pync ffortiwn ar sail poen a dicter eu dilynwyr. Yn daeth 'rêf' yn boblogaidd a chwyrliodd rhyw, pils a pherthnasau aflonydd heibio, a daeth pop, roc ysgafn a nawr – wel, ymddengys mai'r obsesiwn presennol yw pa grup o ddilynwyr all ennill fwyaf o orchmynion ASBO mewn ffyrdd mwy diddorol na'r lleill. Wel, dyna sut mae pethau'n cael eu portreadu gan y cyfryngau prif-ffrwd ac yn cael eu gweld, gwaetha'r modd, gan fwyafrif y boblogaeth.**

Fel arfer pan fydd y geiriau 'restiwyd' a 'pobl ifanc' yn ymddangos yn yr un pennawd, yr ofn yw mai rhywbeth fel 'am yfed a gyrru;' fydd yn eu dilyn, neu 'am drynwanu tad i ddau'. Felly, a dweud y gwir, pan gyhoeddodd papur Sir Benfro, y 'Western Telegraph' hanes y grup lleol 'Young People 4 Peace' yn blocedio a chael eu restio yn Faslane fis Tachwedd diwethaf, a phan ddaeth ymateb positif yn llifo i mewn, teimlwn yn falch. Roeddem yn newid mymryn ar yr hysteria negyddol ynglwn â phobl ifanc y dyddiau yma. Dyna ail nod Pobl Ifanc dros Heddwch, ar ôl ymgyrchu dros heddwch; rydyn ni am newid delwedd pobl ifanc a dangos nad ydyn ni mor ddiog neu mor ddifater ag y cred rhai. Rydyn ni am fod yn bositif. Yn hytrach na galw'r grwp yn Bobl Ifanc yn erbyn Rhyfel, penderfynsom alw'n hunain yn Bobl Ifanc dros Heddwch. Mae rhai ohonom yn heddychwyr ac mae llawer ohonom yn credu mai'r unig ffordd y gellir sicrhau heddwch yw drwy weithredu uniongyrchol.



ffoto: wejdy a helen

Mae'r rheini sydd mewn grym ar hyn o bryd yn gwneud y penderfyniadau a fydd yn effeithio ar ein dyfodol ni. Brwydrodd cenedlaethau blaenorol i ennill cydraddoldeb a chyfiawnder i ni heddiw, a chyfrifoldeb y rhai sy'n penderfynu heddiw (a phawb sy'n pleidleidio drostyn nhw) yw helpu i roi ffurf i'r dyfodol, gyda'r holl broblemau a'r anawsterau a all fod yn ein haros. Mae'n rhaid i lawer o bobl ifanc sy'n methu pleidleisio eto weithredu, neu wylio'n ddiymadferth wrth i'w dyfodol gael ei ddinistrio.

Rydym yn fyw ac yn effro nawr, a byddwn yn ceisio parhau â'r gwaith da a gychwynwyd gan genedlaethau blaenorol.

**Georgia Coles-Riley**

**heddweithredu:** Mae gan Pobl Ifanc dros Heddwch wyth aelod craidd a rhyw 20 o aelodau gweithredol eraill, yn dod o bob rhan o Sir Benfro. Eleni, maen nhw wedi cymryd rhan yn y gwarchae 'Dim Trident' ym mis Chwefror ac ym Mlocêd 'Draig Goch' Faslane 365 ym mis Tachwedd. Maen nhw'n gosod bwletinau ar lein â'r newyddion diweddaraf, a negeseuon gwleidyddol o bwys a gwybodaeth arall. Erbyn hyn, mae rhyw 200 o aelodau ar-lein o Bobl Ifanc dros Heddwch ar 'my space': http://www.myspace.com/youngpeople4peace Cysylltwch â Phobl Ifanc dros Heddwch t: 01437 767 356 e:southwestwales4peace@hotmail.co.uk

rhyfeddach a rhyfeddach

# Ysgol Ladd Sain Tathan

**Cyfarfu rhyw 40 o weithredwyr o bob rhan o Gymru ar y 7fed o Orffennaf yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd i glywed am adeiladu academi filwrol newydd yn Sain Tathan ym Mro Morgannwg. Bydd yr ysgol hyfforddi anferth, a fydd mewn dwylo preifat, yn cael ei rhedeg gan gonsortiwm 'Metrix', consortiwm sy'n cynnwys y gwneuthurwyr arfau Raytheon a'r Brifysgol Agored. Croesawyd y cynlluniau ar gyfer yr academi gan holl brif bleidiau gwleidyddol Cymru, a hefyd gan TUC Cymru.**

Mae unigolion a chynrychiolwyr gwahanol grwpiau, yn cynnwys y Crynwyr, Pax Christi, yr Ymgyrch i Ddileu'r Fasnach Arfau, Cymdeithas y Cymod, cynghorwyr o Fro Morgannwg, Anarchwyr Caerdydd a Gwent, Cynghrair Ryngwladol y Menywod dros Heddwch a Rhyddid, a Chymdeithas Annibynwyr Heddwch, ynghyd â gweithredwyr unigol dros heddwch o dde a gogledd Cymru, yn y cyfarfod.

### Penderfyniad pwy?

Rhoddodd Stuart Tannock o Adran Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd amlinelliad o hanes y cynllun a'r syniadau a esgorodd arno. Pan gyhoeddodd llywodraeth San Steffan lwyddiant cynnig Sain Tathan a Metrix i sefydlu'r academi hyfforddi milwrol ym mis Ionawr, dathlodd y Prif Weinidog Rhodri Morgan a gweinidogion eraill y Cynulliad â siampaen ar risiau'r Senedd. Dywedodd y Western Mail a'r South Wales Echo mai'r 'llwyddiant' hwn oedd un o'r pethau gorau a ddigwyddodd i Gymru erioed: gwerth £15 biliwn o gytundeb a rhyw 5,000 o swyddi (ymddengys y bydd yn nifer llawer llai, mewn gwirionedd).

### Busnes brwnt

Yn ôl Stuart Tannock, roedd yr holl fater yn codi nifer o gwestiynau pwysig. Doedd dim un gwleidydd wedi codi ei lais yn erbyn y cynllun. Roedd y cwmnïau arfau a oedd yn rhan o'r cynllun yn cynnwys Raytheon sydd, yn ogystal â gwneud clwstwr-fomiau a ffrwydron wraniwm hesb a gwerthu arfau i lywodraethau amheus, hefyd yn darparu systemau llywio electronig ar gyfer system arfau niwclear Trident Prydain. Mae llawer o wledydd eisoes wedi gwahardd buddsoddi yn Raytheon, ond dyma Gymru yn eu croesawu â breichiau agored.

### Er budd i byw?


Mae gorfoledd y gweinidogion yn datgelu nonsens cwbl garbwl: sut yn y byd y gall yr academi filwrol yma gyfrannu at nod falch y Cynulliad o ddatblygu cynaliadwy? Beth yn union y mae Cymru'n ymrwymo iddo pan arwyddir cytundeb Sain Tathan: dyfodol wedi ei seilio ar filitariaeth? Safiad yn erbyn dioddefwyr rhyngwladol rhyfelgarwch milwrol Prydain? Ymrwymiad i werthu ieuenctid Cymru i mewn i waith milwrol? Anwybyddu'r gwir gost amgylcheddol? Ymrwymiad i breifateiddio milwrol? Mat croeso ar gyfer gwneuthurwr taflegrau mwya'r byd? Beth fydd effaith yr academi ar ansawdd bywyd lleol – ar dagfeydd traffig, er enghraifft, a fforddiadwyedd tai? Fel y gofynnodd un fenyw yn y cyfarfod – beth fydd effaith cymdeithasol poblogaeth o ddynion a menywod ifainc sy'n treulio'u dyddiau'n dysgu sut i ladd, wrth iddynt fynd allan ar strydoedd trefi ym Mro Morgannwg? Beth fydd yr effaith ar addysg Gymreig a'i sefydliadau, a'r gwerthoedd cymdeithasol a gwleidyddol a ddysgir i blant a phobl ifanc Cymru?

### Honco bost

Datgelodd Stuart Tannock fod Metrix wedi mynegi eu bod am ganolbwyntio ar bryderon amgylcheddol pobl ifanc ac adeiladu a rhedeg yr Academi mewn ffordd lesol i'r amgylchedd, ond wrth gwrs, am resymau sy'n ymwneud ag elw yn hytrach na moeseg. Mewn dogfen hyrwyddo, mae PSG Metrix, Mike Hayle, yn egluro, 'Rydym yn ymwneud â rhai yn eu harddegau sy'n llawer mwy ymwybodol o'r amgylchedd nag 20 neu 30 mlynedd yn ôl pan ymunais i â'r lluoedd arfog. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn cydfynd â'u syniadau nhw ar faterion amgylcheddol.' Bydd pobl ifanc yn cael eu hyfforddi mewn crefft sy'n llofruddio pobl, yn llwyr ddinistrio amgylcheddau, sydd heb ddim parch at gymunedau ac a all greu anialwch o rannau helaeth o'r ddaear am byth. Mae'n anodd credu mae am Gymru rydyn ni'n sôn, nid rhyw Wlad Hud. Roedd Tannock yn ddeifiol ynglyn â'r croestyniadau: 'Efallai nad oes yfflon o ots gyda ni am blant Irac – y credir fod mwy na 260,000 ohonyn nhw wedi marw ers goresgyniad 2003 – ond gallwn fod yn hapus o wybod fod Consortiwm Metrix yn mynd i dryn drafferth i symud trefedigaethg o fadfallod dur cribog a fu'n nythu ar safle Sain Tathan i fan diogel cyn cychwyn ar y gwaith adeiladu.'

### Trident – y cysylltiad â'r Fro

Efallai y bydd o ddiddordeb i'r rheini sydd ag ymrwymiad i Gymru ddi-niwclear i wybod fod Ysgol Beirianneg Forol y Llynges Frenhinol, sy'n cynnwys y Grup Systemau Niwclear, i fod i symud o HMS Sultan i Sain Tathan erbyn 2017. Y Grup Systemau Niwclear sy'n hyfforddi'r swyddogion llynghesol sy'n gyfrifol am weithredu llongau tanfor niwclear sy'n ffurfio calon greulon ac enaid chwerw system arfau niwclear Trident Prydain.



len munnik

## Dewch ymlaen – dywedwn 'Na' i'r 'Ysgol Ladd' yma

**heddweithredu:** Cynhelir cyfarfodydd i drafod sut i ymgyrchu ar y mater yma. Cysyllter â Cynefin y Werin (James Maiden) am fwy o wybodaeth (029 2022 8549) jamesmaiden@wcia.org.uk neu ewch i wefan Cynefin y Werin www.cynefinywerin.org

Does dim rhaid aros am y cyfarfod nesaf cyn dechrau gweithredu.

Gofynnwch gwestiynau i'ch Aelod Cynulliad, ar achlysur pan fydd y wasg gyda nhw ar gyfer rhyw ddigwyddiad cyhoeddusrwydd, o ddewis, er mwyn i'w barn am yr Academi gael ei rhannu gyda chymaint o bobl ag sy'n bosibl.

Ydych chi'n astudio gyda'r Brifysgol Agored? Pam na ofynnwch i'r cyfarwyddwyr pam maen nhw wedi mentro i bartneriaeth gyda chiwed o lofruddion a throseddwyr.

Ydych chi'n perthyn i undeb sy'n aelod o TUC Cymru? A gefnogodd eich undeb y cynllun yma? A holodd rhywun eich barn chi? Codwch y mater yn eich cyfarfod undeb lleol.

Po fwyaf anghysurus y gallwn pawb sy'n rhan o'r project yma a pho fwyaf o embaras y bydd iddyn nhw, y lleiaf tebygol y mae o gael ei wireddu. Daliwn i bwyso.

Dywedwn Na i Sain Tathan [gweler hysbyseb swydd tud 4]

# Menywod o Gymru'n cael eu restio y SAA Aldermaston

**Cafodd dwy fenyw o'r Canolbarth a aeth i barti penblwydd Gwersyll Heddwch y Menywod yn Sefydlaiad Arfau Atomig (SAA) Aldermaston ym mis Mehefin eu restio mewn grwp o ddeg o fenywod. Cawsant eu restio'n dorfol o dan ddeddfau lleol newydd sy'n ceisio atal protestio heddychlon wrth y SAA ger Reading.**

Cymerodd heddlu aneffeithiol y Weinyddiaeth Amddiffyn deirawr wedi'r digwyddiad i gorlanu'r menywod a dod o hyd i gludiant iddynt i orsaf yr heddlu yn Reading. Cafodd pawb eu cyhuddo o'r troseddau ysgeler o 'wersylla' a 'chynnau tân' mewn ardal dan reolaeth y deddfau lleol, er nad oedd dim pebyll nac offer gwersylla i'w canfod.

Meddai Del Gwynfyd, 'Roedd yr heddlu bron â marw am gael gweithredu eu deddfau lleol newydd. Ymddengys mai un o'u prif amcanion oedd sicrhau amodau mechnïaeth a fyddai'n ein hatal rhag mynd ar gyfyl y ffatri arfau niwclear. Fodd bynnag, fel mae'n digwydd, dydy'r heddlu ddim yn cael gosod amodau mechnïaeth am y math yma o drosedd, felly mae'r rhain eisoes wedi cael eu gollwng.

Mae'r gwersyll heddwch wedi bod yno ers 22 flynedd ac mae bob amser wedi llwyddo i drechu erledigaeth o'r fath. Ni ddylai'r restiadau hyn atal neb rhag ymweld – dim ond ychydig o droedfeddi o gwmpas y ganolfan sy'n ardal waharddedig a gellir ei hosgoi.'

Mae gwersylloedd misol y menywod wrth y ganolfan yn parhau, a phrotestiadau Blocio'r Bildars dynion a menywod sy'n ceisio tarfu ar waith adeiladu sy'n gysylltiedig â datblygu olynydd i Trident.

**heddweithredu:** mwy o wybodaeth gan www.aldermastonwpc.gn.apc.org Blocio'r Bildars: www.blockthebuilders.org.uk Gwersyll penwythnos newydd ar benwythnos llawn olaf pob mis. Manylion gan Andrew t: 0845 4588 368 neu t: 07807522454 e: aldermastonwatch@blueyonder.co.uk

# Gwisgwch Babi Gwyn dros Heddwch



**Gweledigaeth Gild Cydweithredol y Menywod oedd y pabi heddwch gwyn a ymddangosodd am y tro cyntaf ar ddydd Cadoediad 1933; y flwyddyn ganlynol, aeth yr Undeb Addewid Heddwch (PPU) yn gyfrifol am eu dosbarthu.** Dechreuodd aelodau'r gild – mamau, chwiorydd, gweddwon a chariadon dynion a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, lawer ohonyn nhw – ofni, gyda'r tensiwn rhyngwladol a chartref, fod rhyfel gwaeth byth yn mynd i ddilyn y 'rhyfel i ddiweddu pob rhyfel' y bu eu gwwr farw ynddo. Yr ofn yma a esgorodd ar y pabi gwyn. Ond yn fwy na hynny, roedd y bobl a'i gwisgai yn gwneud hynny fel ymrwymiad i heddwch, ac i fynnu y dylai'r rhai sydd mewn grym wrthwynebu rhyfel; y dylid datrys gwrthdaro heb drais a gyda chyfiawnder.

Dros 300 o ryfeloedd yn ddiweddarach, ac wedi marwolaeth mwy na 200 filiwn o bobl, mae'r pabi gwyn yn dal i'n hatgoffa o fethiant y byd i atal rhyfel. Mae'n symbol o alar i bawb a niweidiwyd gan ryfel ond, yn bwysicach, mae'n symbol o ymrwymiad i weithio gyda'n gilydd i ddileu rhyfel am byth. Mae'r pabi gwyn yn edrych tua'r dyfodol; ymunwch â ni, a helpwch ni i'w wneud yn un di-drais.

**heddweithredu: Archebwch eich Pabïau Gwyn heddiw (archeb leiafswm £3.00, cludiant £2.00) gan: Peace Pledge Union, 1 Peace Passage Llundain N7 0BT t: 0870 770 7944 e: wp@ppu.org.uk Mwy o wybodaeth: www.ppu.org Mae pob pecyn yn cynnwys gwybodaeth am y Pabi Gwyn.**
**Blwch Arddangos o 100: £40.00; Pecyn 25-Pabi: £12.50; Pecyn 10-Pabi: £6.00; Pecyn 5-Pabi: £3.00; llai na 5 Pabi, £0.60 yr un.**
**'Remembering war – searching for peace' Set o ddogfennau – Cofio'r Rhyfel, Propaganda, Cofebau Rhyfel – er mwyn olrhain yr hanes a sbïo y tu ôl i wyneb cyhoeddus coffáu (yn cynnwys cwestiynau ar gyfer y stafell ddosbarth, CA 3) £4.00**
**Mae pobl yn rhoi cynnig ar ddulliau di-drais am wythnos, a phan nad ydyn nhw'n gweithio, maen nhw'n troi'n ôl ar drais, sydd heb weithio ers canrifoedd.**

# CND yn croesawu blaenoriaeth gan Brown i Ddiarfogi Niwclear Byd-eang

**Hyd yn oed cyn i Blair ymadael â Downing Street ym mis Mehefin, gwnaeth yr Ysgrifennydd Tramor ar y pryd, Margaret Beckett, araith yn addo gwneud Prydain yn 'labordy diarfogi'. Mae ymgyrchwyr dros ddiarfogi niwclear yn gobeithio fod hynny'n arwyddo y bydd prif weinidogaeth Brown yn rhoi blaenoriaeth uchel mewn polisi tramor i ddiarfogi niwclear amlochrog.** Dywedodd Mrs Beckett: 'Mae'r diffyg trafodaeth am ddiarfogi ar y lefelau uchaf yn beryglus, a cheir anallu cyffredinol hyd yn hyn i esgor ar gynllun clir.'

Aeth ymlaen i amlinellu'r angen sydd am gamau i weithredu'r Cytundeb Atal Profion Cynhwysfawr, y Cytundeb Torbwynt Deunyddiau Ymholltol, cyfundrefn wirio newydd eglur, a gostyngiadau sylweddol yn stôr anferthol yr UD a Rwsia o arfau niwclear, mater brys wedi i lywodraeth Bush gyhoeddi y mis diwethaf y byddai'n gadael i Gytundeb START 1 ddirwyn i ben yn 2009.

Galwodd Kate Hudson, Cadeirydd CND Prydeinig, am weithredu yn sgîl geiriau Margaret Beckett, a galwodd am fentrau penodol i dorri'r drwy'r dagfa bresennol ar arfau niwclear. Dywedodd fod yn rhaid i ni 'Yn gyntaf leihau'r tensiwn ynghylch polisi defnydd niwclear. Rhaid i Brydain ddatgan na fydd yn taro gyntaf ac na fydd yn defnyddio arfau niwclear yn erbyn gwladwriaeth heb arfau niwclear – bygythiad a wnaed gan yr Ysgrifennydd Amddiffyn yn y cyfnod yn arwain at y rhyfel yn erbyn Irac. Yna, mae'n rhaid i ni symud ymlaen gyda diarfogi. Dywedodd Mrs Beckett pe bai'r amodau'n iawn, y byddem yn cael gwared o arfau niwclear Prydain. Rhaid i'r llywodraeth helpu i greu'r amodau hynny yn awr.'

Mae galw rhyngwladol mawr am weithredu tuag at ddiarfogi niwclear. Mae llawer o wledydd sydd heb arfau niwclear yn rhwystredig iawn ynglwn â methaint y pum gwlad sydd ag arfau niwclear i gyflawni eu hoblygiadau i ddiarfogi o dan y Cytundeb Atal Ymlediad niwclear. Mae CND, ynghyd â nifer o wledydd heb arfau niwclear a mudiadau ymgyrchu eraill, wedi bod yn galw am negydu ar sail y drafft o Gytundeb Arfau Niwclear sydd gyda'r CU ar hyn o bryd. Byddai hyn yn gwneud arfau niwclear yn anghyfreithlon yn yr un modd ag y gwnaed arfau cemegol a biolegol a ffrwydron tir yn anghyfreithlon.

---

### *Cydlynydd Ymgyrch yn erbyn Academi Hyfforddiant Sain Tathan*

**Mae Cynefin y Werin, y rhwydwaith Cymreig sy'n hyrwyddo heddwch rhyngwladol, cyfiawnder cymdeithasol, hawliau dynol a chydraddoldeb, yn recriwtio Cydlynydd ar gyfer yr ymgyrch hwn. Bydd hi/ef yn gweithio 8 awr yr wythnos am £10/awr am gyfnod o 6 mis o fis Medi – cyfanswm o £2,080. Bydd y Cydlynydd yn gyfrifol am drefniadau treth incwm ac Y. G. ei hun, a dylai meddu ar y modd o weithio o gartref. Bydd Cynefin y Werin hefyd yn talu treuliau teithio ac ati yn gysylltiedig â'r prosiect.**

Bydd y Cydlynydd yn trefnu cyfarfodydd a gweithgareddau cyhoeddus, yn lobïo gwleidyddion, yn gyfrifol am fas data cefnogwyr, yn creu adnoddau cyhoeddusrwydd ac yn llefarydd i'r ymgyrch. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â James Maiden ar 029 2022 8549 neu jamesmaiden@wcia.org.uk, neu ysgrifennwch at Cynefin y Werin, Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3AP. Dyddiad cau am ymgeisyddion (trwy ddanfon c.v. i un o'r uchod) yw 5 Medi 2007.

### Y SIOP HEDDWCH

**yn rhoi gwahoddiad i cyn-aelodau, cefnogwyr a frindiau i DDATHLIAD yn Y CANOLFAN CELFYDDYDAU Y LLIDIART, Heol Keppoch, y Rhath, Caerdydd, am 7pm dydd Mercher 26 Medi. Cinio £20.00 Phoniwch Margot Rees cyn Awst 19**

# Vanunu i gael ei garcharu eto

**Ar Orffennaf yr ail, dedfrydodd llys yn Israel Mordechai Vanunu i chwe mis o garchar, gyda dedfryd ohiriedig o chwe mis arall am dorri gwaharddiad ar siarad â chyfryngau newyddion tramor. Mae eisoes wedi treulio 18 mlynedd yn y carchar am ddatgelu cyfrinachau niwclear. Mae gan Mordechai tan fis Medi i benderfynu p'run ai i apelio ai peidio ac yn y cyfamser, mae'r llys wedi gohirio ei ddedfryd am y tro.**

Derbyniodd ei ddedfryd 18-mlynedd ar ôl dweud wrth y Sunday Times am ei waith fel technegydd yn Dimona, datgeliad a rwygodd ymaith y llen o gyfrinachedd o gwmpas arfogaeth niwclear Israel. Cwblhaodd ei ddedfryd yn 2004, ac roedd amodau ei ryddhad yn ei wahardd rhag cysylltu â thramorwyr neu roi cyfweliadau i'r wasg. Mae ei symudiadau a'i gysylltiadau personol ers ei ryddhau o'r carchar wedi cael eu rheoli, ar sail y posibilrwydd y gallai ddatgelu manylion newydd ynglwn â'i waith yn y gorffennol yn adweithydd niwclear Dimona. Mae Mordechai'n mynnu mae'r cwbl mae am ei wneud yw cynnal ymgyrch ddi-niwclear heddychlon. 'Y cwbl dwi eisiau yw bod yn rhydd, i ymadael â'r wlad', meddai.



**heddweithredu:** Da chi, anfonwch air o gefnogaeth at Mordechai: PO Box 20102, Herodotus Post Office, East Jerusalem 91384 Israel e: vmjc1954@gmail.com

faslane 365

# Y chwarter olaf

**Wrth i *heddwch* fynd i'r wasg, mae gwarchae Faslane 365 yn parhau. Erbyn diwedd mis Gorffennaf, gwelodd Faslane 115 o Grwpiau Blocêd, 165 diwrnod o bresenoldeb, mwy nag 880 wedi eu restio a 37 o erlyniadau. Mae'r grwpiau blocêd ers mis Mehefin wedi cynnwys corau o bob rhan o Brydain, dathlwyr yr heulsaf (*solstice*), grwpiau o Grynwyr, academwyr, myfyrwyr, gweithredwyr o Lundain, myfyrwyr diwinyddol, ymwelwyr o Japan a gweldydd eraill o'r Cwch Heddwch, y grup Ieuenctid Ewropeaidd 'Ban All Nukes Generation', ac CND yr Alban. Daeth pob grwp â'i ddychymyg a'i obaith ei hun i wynebu arswyd ac anlladrwydd y ganolfan arfau niwclear Brydeinig.**

Ar y 1af o Hydref 2007, ar ôl blwyddyn o warchae di-drais yn Faslane, 30 milltir i'r gorllewin o Glasgow, mae Faslane 365 yn dathlu amrywiaeth ac effaith y gwrthsafiad sifil yma yn erbyn arfau dinistr torfol anghyfreithlon Prydain. Mae grwpiau ac unigolion sydd, mewn gwahanol ffyrdd dyfeisgar, wedi tarfu ar 'fusnes fel arfer' yn Faslane, yn ymgynnull am ddathliad, carnifal o wrthsafiad. Rydych chi a'ch frindiau wedi eich gwahodd hefyd!

Pam nad ymunwch chi yn y dathliad hwn o greadigrwydd a gobaith? Wrth i flwyddyn Faslane 365 ddirwyn i ben, bydd cyfle i ymrwymo o'r newydd i wrthsafiad, ac i weledigaeth o fyd di-niwclear. Cynhelir sesiwn strategaeth yn Glasgow ar y 29ain o Fedi a bore'r 30ain. Bydd y sesiwn hon yn gweithio ar ffyrdd o barhau ag egni Faslane 365 ledled Prydain.

Bydd nos Sadwrn 29ain o Fedi yn ddathliad a fydd yn cynnwys cerddoriaeth, cerddi a ffilmiau. Bydd llety a hyfforddiant ar gael yn Glasgow y noson flaenorol. Bydd bysys yn gadael Caeredin am 4:30am a Glasgow am 5:30am ar y 1af o Hydref. Bwciwch yn gynnar, da chi. Rydym yn gobeithio mynd â grwp o Gymru yno. Am gysylltiadau a manylion eraill, gweler Dyddiadau Dyddiadur.

## Hanner Canrif o CND




Aberystwyth 1957

**Mae CND Prydeinig yn dathlu ei hanner canmlwyddiant y flwyddyn nesaf a hoffai glywed gan unrhyw un a ymunodd ag CND yn ei flwyddyn gyntaf, 1958, ac sy'n dal yn weithgar heddiw. Os oes gennych unrhyw ffotograffau o ddyddiau cynnar CND, a fyddech cystal â chysylltu â Kate Hudson,**

CND, 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ t:020 7700 2393 e: office@cnduk.org

adolygiad

# Y Gwir yn erbyn y Byd

**Mae'r Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel, o Landrindod, newydd gyhoeddi 'Wolves of Water' gan Chris Busby, llyfr gwyddonol a thra personol hefyd sy'n adrodd hanes y 12 mlynedd diwethaf o ymgyrchu ar faterion llygredd ymbelydrol ac iechyd. Mae'r awdur yn ei ddisgrifio fel 'llawlyfr brwydr ar gyfer y Rhyfeloedd Gwyddoniaeth'.**

Mae'r llyfr yn ymdrin â chyfrifoldeb corfforaethol o safbwynt llywodraethau gwladol, ac mae'n 'rhan-gofiant, rhan-werslyfr, rhan-rybudd, rhan-adloniant a rhan-ddathliad o fywyd': disgrifiad ydyw o benderfyniad un dyn i herio grym y lobi niwclear/filwrol.

Mae Busby'n ein rhybuddio i ennill rheolaeth ar 'y rhyngwyneb gwyddoniaeth/polisi' cyn i ganlyniad gwyddoniaeth a ffyrdd gwyddonol o feddwl ein dinistrio ni oll.

Yn ei gyfrol flaenorol, 'Wings of Death' (1995), cyflwynodd Busby y ddamcaniaeth mai radio-niwclidau o waith llaw dyn, sef Cesiwm 137, Plwtoniwm 237 a Strontiwm 90 a ollyngwyd i mewn i'r amgylchedd gan y diwydiant niwclear a phrosesau eraill, sy'n gyfrifol am yr epidemig canser presennol. Mae 'Wolves of Water' yn defnyddio ei waith ar Sellafield a'r clystyrau canser ger Môr Iwerddon i ddadansoddi gwaith y sefydliad sy'n cynghori'r llywodraeth, y wyddoniaeth unllygeidiog, a'r ymdrechion i gelu achosion canser ac afiechydon eraill.

O'r achosion o ganser ger safleoedd niwclear, mae'n symud ymlaen at lwch ymbelydrol ym mherfeddwlad Lloegr, plwtoniwm yn nannedd plant, adweithyddion niwclear wedi eu claddu o dan stadau tai, ac effeithiau arfau wraniwm ar bobl sy'n byw filoedd o filltiroedd oddi wrth faes y gad.

Dylai'r gyfrol liwgar, wybodus ac atgyfnerthol hon, sy'n llawn straeon, neillebau, cerddi, lluniau, caneuon, dyfyniadau, graffiau a thablau data, gael ei darllen gan epidemiolegwyr, gweithredwyr amgylcheddol, gwyddonwyr, athronwyr, gwleidyddion, rheolyddion, cyfreithwyr ac, efallai, criminolegwyr. Mae hefyd yn arf hanfodol i unrhyw un sydd wrthi'n herio'r celwyddau, y rheolaeth a'r celu sy'n nodweddu'r 'Rhyfeloedd Gwyddoniaeth', fel y mae Busby'n eu galw.

**I brynu copi (£12) neu i gysylltu â'r Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel, gweler www.llrc.org e: bramhall@llrc.org *Wolves of Water A Study Constructed from Atomic Radiation, Morality, Epidemiology, Science, Bias, Philosophy and Death* gan Chris Busby Green Audit Books 2006 ISBN- 1-897761-26-0**

trydan niwclear

# Gorsaf Bŵer Oldbury – wedi cau am byth?

**Mae Gorsaf Bwer Oldbury ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr ar gau eto ar ôl bod 'ar-lein' am ddim ond wyth diwrnod ers mis Awst 2006.**

Caewyd yr orsaf bwer yn Swydd Gaerloyw ym mis Mai yn dilyn tân yno, a chaeodd eto ym mis Mehefin am resymau sydd heb gael eu datgelu. Yn awr, cyhoeddwyd y bydd Oldbury yn rhoi'r gorau i gynhyrchu trydan ar ddiwedd 2008. Ym mis Mehefin, cyfarfu Jim Duffy o Ymgyrch Atal Hinkley a Chris Gifford o Gynghrair Wrth-niwclear Cymru ag arolygwyr sefydliadau niwclear yn eu pencadlys yn Bootle i drafod diogelwch yr adweithyddion niwclear yn Oldbury a Hinkley (Gwlad yr Haf).

Doedd y ddau ymgyrchydd ddim yn amau fod yr arolygwyr yn ddiffuant ac yn gydwybodol, ond roedd yn amlwg eu bod yn gweithio o fewn cyfyngiadau ar yr hyn y caent ei ddatgelu a datganiad y prif weinidog 'nad yw diogelwch adweithyddion yn broblem bellach'. Heblaw am faterion yn ymwneud ag Oldbury a Hinkley yn uniongyrchol, dywedwyd wrthynt ei bod yn ddigon tebyg mai penderfyniadau yn Sellafield i atal ailbrosesu er mwyn cadw o fewn terfynau Cytundeb OSPAR ar ollwng gwastraff a fyddai'n pennu a fyddai gorsafoedd yn cau.

**heddweithredu:** Sgrifennwch at eich AC neu AS i fynnu fod Oldbury yn cau ar unwaith ac am byth. Chwaraewch ran yn yr ymgyrchoedd neu cefnogwch nhw: CWNC: wallismk@cardiff.ac.uk Stop Hinkley: ymgyrch i gael gwared ag adweithyddion niwclear o lannau Môr Hafren ac i sicrhau y defnyddir technolegau mwy gwyrdd. www.stophinkley.org Jim Duffy t: 0208 395 6191, symudol: 07968 974 805, e: stophinkley@aol.com

# Plaid Cymru yn ymateb ar gwestiwn Wylfa B a phŵer niwclear

**Y tro cyntaf y clywais fod Wylfa B nôl ar yr agenda oedd pan anfonodd Phil Steele ebost ataf cyn etholiadau'r Cynulliad. Roedd yr hyn a sgrifennodd Phil yn y bon yn fersiwn o'r erthygl a ymddangosodd yn rhifyn diwethaf 'Heddwch'. Fel Phil, rwyf wedi dod i ddibynnu ar Blaid Cymru i 'fod yno' ar faterion heddwch, cyfiawnder a'r amgylchedd, yn cynnwys gwrthwynebiad i bwer niwclear . Felly roeddwn innau'n llawn mor ofidus i glywed am gefnogaeth amodol Ieuan Wyn Jones i Wylfa B.**

Gyda'r ASE Jill Evans yn Gadeirydd CND Cymru, y cyn-ASau Simon Thomas a Cynog Dafis yn weithgar mewn ymgyrchoedd dros heddwch a'r amgylchedd yng Ngheredigion, Bethan Jenkins, un o gyn-hoelion wyth Rhwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth, wedi ei hethol yn AC, Dafydd Iwan yn canu yng ngwarchae Cymru ar Faslane, a Leanne Wood AC wedi ei restio yn yr un brotest, heb sôn am yr aelodau cyffredin y byddaf yn gweithio gyda nhw bob dydd ar y fath faterion, allan i ddim credu fod Ieuan Wyn Jones yn cynrychioli barn Plaid Cymru.

Felly fe sgrifennais at Jill Evans, gan gopïo'r llythyr at ffrindiau a chydnabod ym Mhlaid Cymru, i geisio 'eglurdeb' ynglwn â pholisi'r Blaid ar Wylfa B, yn enwedig, ac ynni niwclear yn gyffredinol. Llywydd y Blaid, Dafydd Iwan, oedd y cyntaf i ymateb yn ei ffordd nodweddiadol ddi-flewyn-ar-dafod, i'm sicrhau 'nad yw polisi'r Blaid wedi newid, ac rydym yn dal i wrthwynebu arfau niwclear ac ynni niwclear yn llwyr'. Addefodd, fodd bynnag, 'fod rhai aelodau a arferai fod yn erbyn ynni niwclear wedi dechrau newid eu hagwedd oherwydd yr agenda newid hinsawdd.' Roedd Dafydd, i'r gwrthwyneb, o blaid cwtogi ar ddefnydd ynni a datblygu mentrau adnewyddadwy lleol eu gweithrediad a'u perchenogaeth, gan fy atgoffa fod 'y Blaid wedi ymrwymo i gwtogi ar ddefnydd ynni o 10%, ac i leihad blynyddol o 3% mewn allyriant $CO_2$.'

Adleisiwyd sicrwydd Dafydd Iwan gan Cynog Dafis a oedd o blaid mynd ar drywydd pob math o ynni adnewyddadwy, yn enwedig gwynt ar dir. Sgrifennodd Jill Evans ei bod 'wedi bod yn gweithio ar gynlluniau datblygu cynaliadwy lleol (wedi eu hanelu at awdurdodau lleol, yn arbennig) gyda'r pwysais ar arbed ynni ac effeithlonrwydd ynni, a hefyd ynni adnewyddadwy . . . Mae fy marn innau ar ynni niwclear yn ddigyfnewid. Gwelais ei ganlyniadau gwaethaf yn Chernobyl y llynedd. Does dim lle iddo yng Nghymru.'

Nododd cynghorydd lleol dros Geredigion ac Aberystwyth, Alun Williams, mai yn y Gynhadledd y gwneir polisi Plaid Cymru, lle byddai unrhyw gynnig o blaid newid eu safbwynt ar ynni niwclear yn cael ei wrthod. Felly, heb gymryd y dyfodol yn ganiataol, dwi'n credu y gallwn fod yn sicr o ran Plaid Cymru yn y gynghrair sy'n brwydro dros fyd di-niwclear. Nawr bod Ieuan Wyn Jones wedi dal gafael ar ei sedd yn Ynys Môn, gobeithio y bydd yn gwrando ar eiriau ei gymrodyr.

Ond ni ellir ei gadael hi felly. Yn ei lyfr diweddaraf, 'Heat', mae un o drigolion newydd Cymru, George Monbiot, wedi sgrifennu ein bod yn mynd i orfod defnyddio 90% yn llai o ynni erbyn 2030. Er mwyn i ni fod â dewisiadau eraill heblaw am bwer niwclear, rhaid i Blaid Cymru arwain y ffordd o ran braenaru'r tir democrataidd ar gyfer y fath newid radicalaidd. Da o beth fyddai hi i Ieuan Wyn Jones graffu ar gynllun Pobl Atal Wylfa B i wneud Ynys Môn yn ganolfan fyd-eang ar gyfer ynni adnewyddadwy.

**Kelvin Mason, Aberystwyth**

**Gall y gweddill ohonom gychwyn arni drwy arwyddo deiseb PAWB: http://www.petitiononline.com/nonuke/petition.html**

# dyddiadau dyddiadur

**4ydd - 11eg Awst Eisteddfod Genedlaethol, Yr Wyddgrug** Dewch i ymweld â phabell CND Cymru a Siopa dros Heddwch!

**6ed Awst Byd-eang. Dydd Hiroshima** Mae cynlluniau'r llywodraeth i ddwysáu'r ras arfau drwy fynd ati i gynhyrchu bríd newydd o arfau yn ei gwneud hi'n bwysicach byth ein bod yn cofio bomio Hiroshima a Nagasaki ym 1945. Mae oblygiadau'r dyddiau trasig hynny yn dal i effeithio ar fywydau pobl Japan, yn enwedig perthnasau'r 100,000 a gollodd eu bywydau yn y bomio a'i ganlyniadau. Bydd CND Cymru, Côr Cochion a grwpiau heddwch eraill yn coffáu'r digwyddiadau ofnadwy hynny nos **Sul 5 Awst 7:30 pm ar lan Llyn Parc y Rhath** ac yng **Nghasnewydd, ar lan llyn Parc Tredegar**.Dewch i ymuno â ni gan ddod â chanhwyllau, petalau blodau a garanod papur i goffáu dioddefwyr rhyfel niwclear. Am fwy o wybodaeth cysyllter â: Caerdydd: Ray Davies/ Wendy Lewis t: 02920 889 514; Casnewydd: Mary Millington t: 01633 265 244

**Mae digwyddiadau coffa eraill yn cynnwys:**

**6ed Awst 8.00pm The Groves, Caer** Digwyddiad Coffáu â Blodau i gofio am bawb a fu farw ac a ddioddefodd yn y bomio atomig ac addo na chaiff hyn byth ddigwydd eto. Cwrdd wrth stondin y band ar gyfer darlleniadau, tawelwch ac i ollwng blodau gwyn ar yr afon. Cysyllter â: Crynwyr Caer: 01244 679 051

**Awst 6ed Wrecsam yn Cofio Hiroshima. 5pm** Bydd Menywod dros Heddwch Wrecsam yn cynnal seremoni goffa. Cwrdd wrth y nant rhwng Maes Parcio Stryd Tuttle a Chysylltffordd St Giles. Cewch glywed disgrifiad gan un a oroesodd Hiroshima cyn gwasgaru petalau ar y nant. Dewch â bag o betalau gyda chi, os gellwch. Yna bydd: **Picnic Heddwch a Straeon Gobaith 6pm.** Cwrdd yn y Gerddi Heddwch, Stryd Holt, Wrecsam. Cyfle i gydfwyta a gwrando ar straeon gobaith wedi eu hadrodd gan y chwedleuydd, Fiona. Dewch â phicnic a mat/ cadair. Croeso i ddynion cefnogol, menywod a phlant. t: 0845 330 4505 wrexhamwomen@yahoo.co.uk

**9fed Awst Byd-eang. Dydd Nagasaki**

**9fed - 10fed Awst Faslane** Cyngor Heddwch Henffordd yn Faslane365. Cysyllter â Bob ar 01432 270 105. www.faslane365.org Croeso i gefnogwyr o Gymru!

**10fed - 12fed Awst Machynlleth El Sueño Existe - Gyul Victor Jara Festival.** Guyl o gerddoriaeth, diwylliant a gwleidyddiaeth o America Ladinaidd. www.elsuenoexiste.org.uk

**10fed - 12fed Awst Aldermaston, Gwersyll Heddwch y Menywod.** O 9pm nos Wener tan amser cinio ddydd Sul. www.aldermaston.net/ camp/visit.php m: 07969 739 812 e: info@aldermaston.net www.aldermaston.net/ events.php

**20fed - 21ain Awst Faslane. Uncle Sam Wants YOU ... to resist WMD.** Blocêd grup yr UD. Os ydych yn Americanwr/wraig sy'n byw ym Mhrydain neu sy'n bwriadu teithio i'r Alban heulog yr haf yma, pam nad ymunwch â ni? www.faslane365.org/en/ us_group e: brian@faslane365.org

**23ain - 24ain Awst Faslane. Great God it's the Grannies.** Blocêd Neiniau dros Heddwch. www.faslane365.org/en/ grannies_for_peace

**1af Medi Gwylnos fisol Menywod mewn Du Caerdydd** yn erbyn parhad y rhyfel yn Irac. 12.00 - 1pm, Grisiau'r Amgueddfa Genedlaethol.

**3ydd Medi 7.30pm Y Deml Heddwch, Caerdydd: 'Star Wars and US Imperialism',** Cyfarfod Cyhoeddus gyda Bruce Gagnon o'r Ymgyrch Fyd-eang yn erbyn Arfau yn y Gofod. Trefnwyd gan Cynefin y Werin www.cynefinywerin.org

**4ydd Medi Pen-y-bont ar Ogwr, Tw Cwrdd y Crynwyr: 'Star Wars and US Imperialism',** Cyfarfod Cyhoeddus gyda Bruce Gagnon o'r Ymgyrch Fyd-eang yn erbyn Arfau yn y Gofod (UDA) Trefnwyd gan Dw Cwrdd Cyfeillion Pen-y-bont ar Ogwr

**5 Medi Aberystwyth 'Star Wars and US Imperialism'** Cyfarfod Cyhoeddus gyda Bruce Gagnon (gwel. uchod) 7.30pm. Trefnwyd gan Grup Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth. Cysyllter â: Lotte Reimer t: 01970 610 185lotte.reimer@btinternet.com

**11eg- 14eg Medi Llundain. Ffair Arfau DSEi.** Un o ffeiriau arfau mwya'r byd. Rhedir gan Spearhead Exhibitions, is-gwmni i Reed Elsevier a Gweinyddiaeth Amddiffyn Prydain. Noddwyd gan y trethdalwr, sy'n talu am y ffair arfau ei hunan a'r heddlu fydd eu hangen yno (amc. £4m yn 2005). Cefndir y ffair arfau a chardiau post ymgyrchu Reed Elsevier oddi wrth Patrick yn YDFA e: patrick@caat.org.uk t: 020 7281 0297 www.caat.org.uk

**Medi 16eg Y Cynulliad Cenedlaethol yn ailgynnull ar ôl toriad yr haf**

**21ain Medi Dydd Rhyngwladol Heddwch, Y Deml Heddwch, Caerdydd** Mae rhaglen gyffrous wedi ei chynllunio ar gyfer Dydd Heddwch y CU ar ddydd Gwener 21ain o Fedi, o 12-2pm ac o 7:30pm. Bydd rhan gyntaf y diwrnod, o 12-2, yn canolbwyntio ar bobl ifanc yn y mudiad heddwch, gyda gweithredwyr dros heddwch a chyfiawnder o Cyfiawnder nid Dial a Lleisiau yn yr Anialwch a golygydd Peace News, Milan Rai, ac CND Ieuenctid. Dilynir hyn gan gyfarfod gyda'r hwyr gyda'r gweithredwyr dros heddwch Bruce Kent (o CND,ac un o sylfaenwyr y Mudiad dros Ddileu Rhyfel) a Norman Kember. Bydd sesiwn cwestiwn ac ateb a bydd Côr Cochion yn canu caneuon heddwch.

**22ain Medi Gwyl Heddwch Genedlaethol Cymru, hanner dydd tan yn hwyr, Galeri, Caernarfon** Siaradwyr: Mabon ap Gwynfor, Yr Athro Nick Wheeler, Jo Berry a Patrick MacGee Eleni, mae Gyul Heddwch Genedlaethol Cymru yn symud i'r gogledd o'i chartref traddodiadol yn Aberystwyth, i Gaernarfon. Fe'i croesawir yno gan Grup Heddwch a Chyfiawnder Arfon, a'r ffocws fydd rhannu gwybodaeth a sgiliau ar gyfer gweithredwyr a'r cyhoedd. Bydd gweithdai'n cynnwys sesiynau ar y fasnach arfau, delio mewn pobl, gwrthdaro a newid hinsawdd, Palesteina, clownio di-drais, Faslane a Saith y Dreth Heddwch. Bydd gweithdai â ffocws Cymreig hefyd, yn cynnwys yr ymgyrch yn erbyn gorsaf niwclear newydd yn yr Wylfa, Ynys Môn; agor 'Coleg Marwolaeth' yn Sain Tathan yn ne Cymru, gyda holl hyfforddiant 'an-angheuol' y lluoedd arfog yn cael ei drosglwyddo i un campws; a lansio pecyn hyfforddi cymunedau a datrys gwrthdaro, a gynhyrchwyd gan rwydwaith Cynefin y Werin. Ar ôl y gweithdai: ffilmiau ar heddwch a chyfiawnder byd-eang, gig Olive Grooves, yn cynnwys y band Cymraeg diarhebol, yr Anrhefn. Bydd holl elw'r gig yn mynd i broject sy'n cefnogi ailblannu coed olewydd ym Mhalesteina. t: 01286 882 134 e: benica@gn.apc.org www.cymdeithasycymod.org.uk/ gwylheddwch

**Medi 24ain Gwobrau Ieuenctid Rhyngwladol y Mala Heddwch, y Deml Heddwch. Caerdydd** Noson o ddathlu gyda cherddoriaeth a dawnsio. Mudiad yw'r Mala Heddwch sy'n hyrwyddo addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang drwy ddealltwriaeth, parch, cyfeillgarwch, goddefgarwch a heddwch rhwng pob cymuned, diwylliant a ffydd oleuedig, dosturiol. Mae'n cefnogi hawliau dynol, yn gwrthwynebu bwlio a phob math o ragfarn, ac mae'n annog tosturi gweithredol gan ddysgwyr a fydd yn achosi newidiadau positif, yn lleol ac yn fyd-eang. Mynediad drwy wahoddiad yn unig, ond os hoffech ddod i'r Seremoni Wobrwyo neu noddi Gwobrau Ieuenctid y Mala Heddwch, cysyllter â Swyddfa'r Mala Heddwch e: info@peacemala.org.uk t: 01792 774 225 www.peacemala.org.uk

**Medi 29ain- 30ain Cynhadledd Diweddblwyddyn Faslane 365:** Sut i barhau ag egni Faslane 365 er mwyn gwrthwynebu arfau niwclear ym Mhrydain. Nos Sadwrn 29ain: noson o ddathlu creadigol, canu, dawnsio ac adrodd straeon. Dydd Sul 30ain Medi - paratoadau gweithredu ar gyfer grwpiau annibynnol sydd am ymuno mewn blocêd dathliadol mwy na'r un blocêd arall i ddathlu diwedd blwyddyn o wrthsafiad. Croeso i bawb.www.faslane365.org e: info@faslane365.org t: 01845 458 8365

**Medi 30ain 2007 Dyddiad cau ar gyfer yr 'heddwch' nesaf (rhif 45). Anfonwch eich dyddiadau dyddiadur, erthyglau a syniadau!**

**1af Hydref Faslane 365 Blocêd Mawr** Ar ôl blwyddyn o warchae di-drais yn Faslane, 30 milltir i'r gorllewin o Glasgow, dathliad o amrywiaeth ac effaith y gwrthsafiad sifil yma yn erbyn arfau dinistr torfol anghyfreithlon Prydain. Mae grwpiau ac unigolion yn ymgynnull am ddathliad, carnifal o wrthsafiad. Fe'ch gwahoddir i ddathlu creadigrwydd a gobaith. Bydd llety a hyfforddiant ar gael yn Glasgow y noson flaenorol. Bydd bysys yn gadael Caerdin am 4:30am a Glasgow am 5:30am ar y 1af o Hydref. Bwciwch yn gynnar, da chi. e: info@faslane365.org [www.faslane365.org] t: 01845 458 8365 Diddordeb mewn mynd o Gymru? Cysyllter ag CND Cymru (gweler tudalen gysylltiadau) ac fe wnawn ein gorau glas i drefnu bws!

**6ed Hydref Gwylnos fisol Menywod mewn Du Caerdydd** yn erbyn parhad y rhyfel yn Irac. 12.00 - 1pm, Grisiau'r Amgueddfa Genedlaethol.

**13eg - 14eg Hydref Llundain. Cynhadledd Flynyddol CND Prydeinig.** City Hall, Queen's Walk. Dim ond £5 yw'r tâl cynhadledd i unigolion, grwpiau £25. t: 020 7700 2393 www.cnduk.org

**3ydd Tachwedd Gwylnos fisol Menywod mewn Du Caerdydd** yn erbyn parhad y rhyfel yn Irac. 12.00 - 1pm, Grisiau'r Amgueddfa Genedlaethol.

**10fed Tachwedd 2-5pm Bangor 'Detention without Trial'** Bloc Celfyddydau'r Brifysgol, Darlithfa 4, Cyfarfod Cyhoeddus gyda Moazzam Begg. Canolbwyntir ar garchariad parhaus pobl gan yr UD ym Mae Guantánamo. t: Linda Rogers 01248 490 715


**heddwch**

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru)**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Golygydd:**
Jill Gough
(01495) 773 180
heddwcheditor@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
(01591) 610 844
redkiteprint@thefreeflyer.com


## cysylltiadau cnd cymru


**cadeirydd:**
Jill Evans MEP
(01824)709 700
jievans@europarl.eu.int

**is-gaderyddion**
Brian Jones
(01792) 830 330
jonebri.nptc@webmail.digitalbrain.com

Llew Smith

George Crabb
(01446) 774 452

Olwen Davies
(y canolbarth)
(01970) 611 994

Ray Davies (de cymru)
(029 20) 889 514

John Cox
(01495) 773 495

**aelodaeth & aelodau**
Caegwyn, Felinfach,
Llanbedr-Pont-Steffan
SA48 7SA

**masnachu**
Kate Gwynfyd-Sidford &
Del Gwynfyd-Harris
coney@gn.apc.uk
01974 831 575

**trysorydd**
Jean Bryant,
16,Clôs Ty'n y Cymer,
Porth, Y Rhondda CF39 9DE

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**
Jill Gough,
Y Drain Gwynion, Heol yr Eglwys, Talywaun,
Pontypwl NP4 7EF
(01495) 773 180
heddwch@cndcymru.org